DISGWYL YN AWYDDUS Y ‘DYDD MAWR AC OFNADWY’!

Nodyn i’r siaradwr:
Amcan yr anerchiad hwn yw cael y brodyr i ddeall bod y pwnc yn fater o frys. Sicrhewch eich bod yn paratoi yn dda ac yn cyflwyno’r deunydd yn frwdfrydig

YN BENDANT MAE JEHOFAH WEDI SEFYDLU EI DDYDD MAWR AC NI FYDD YN EI NEWID (4 mun.)

Mae hi’n eithaf cyffredin i unigolion gofféu achlysuron pwysig yn flynyddol

Mae cenhedloedd yn cofféu cerrig milltir hanesyddol megis y dyddiad cafodd eu gwlad annibyniaeth neu ei sefydlu

Eto, mae ‘dydd’ arall mae angen inni fod yn ymwybodol ohono

Mae’r dydd hwn eto i ddod, ond fe fydd yn effeithio ar bob unigolyn ar y blaned hon ac yn newid cwrs hanes y ddynoliaeth

Mae’r Beibl yn disgrifio’r cyfnod pwysicaf ym mhrofiad dynol-ryw fel ‘dydd mawr ac ofnadwy Jehofah’ (Joe 2: 30, 31; Mal 4:5)

Yn ystod y dydd hwnnw, bydd Jehofah yn gweithredu yn erbyn ei elynion ac ar ran ei bobl

Bydd hyn yn digwydd yn ystod presenoldeb “Mab y Dyn” ond am y ‘dydd a’r awr’ benodol does neb ar y ddaear yn gwybod (Mth 24:36-39, 44)

Mae’r dystiolaeth ganlynol yn dangos ein bod yn byw yn ystod presenoldeb Crist

DIGWYDDIADAU SY’N RHAN O ARWYDD PRESENOLDEB CRIST (11 mun.)

Rhagfynegodd Iesu y byddai gwrthdaro a brwydrau byd-eang a datblygiadau dwys eraill yn ystod ei bresenoldeb (Mth 24:3, 7, 8; *bh* t. 88-90)

Ers 1914 mae’r byd wedi profi’r Rhyfel Byd Cyntaf a’r Ail

Ar ben hyn, mae gwrthdaro rhyngwladol, rhyfeloedd cartref, a therfysgaeth yn effeithio ar filiynau, gan orfodi llawer ohonynt i adael eu cartrefi (*w08*-E 5/15 13-14 par. 7; *g*-E 6/06 4-6; *g01*-E 3/22 4)

Fe fyddai elfennau crefyddol yn ymddangos ac yn camarwain (Mth 24:11)

Mae’r rhain wedi ymddangos, ond dydyn nhw ddim yn cynnig unrhyw gysur i bobl nac unrhyw obaith ynglŷn â’r dyfodol (*w94*-E 3/1 9-11 par. 7-12)

Fe fyddai anghyfraith a thorcyfraith ar gynnydd (Mth 24:12)

O ganlyniad i hyn mae ofn a diffyg diogelwch wedi treiddio i bob cwr o’r byd

Mae’r Beibl yn disgrifio inni sut y byddai pobl yn ymddwyn yn yr “amserau enbyd” hyn [Trafodwch rai pwyntiau addas o 2 Timotheus 3:1-5, 13]

Bydd dynion drwg a thwyllwyr “yn mynd o ddrwg i waeth, gan dwyllo a chael eu twyllo”

Pwy sy’n eu “twyllo” nhw? [Darllenwch Datguddiad 12:9]

Mae Satan yn dylanwadu ar bawb sy’n dangos ysbryd y byd hwn (1In 5:19)

Amser byr yn unig sydd gan Wrthwynebydd Duw a dyn i barhau â’i weithredoedd drwg a chreulon (Dat 12:12)

Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu fod dydd mawr ac ofnadwy Jehofah i weithredu ei farn yn agos

Yn ei drugaredd, mae Jehofah wedi trefnu cyhoeddi rhybudd byd-eang am y dydd hwnnw (Dat 14:6, 7)

Mae llawer heb dalu unrhyw sylw, yn union fel roedd pobl cyn y Dilyw (Mth 24:38, 39)

O weld fod cyflwr y byd yn dirywio ac o wybod beth fydd yn dilyn, dylen ni cymryd hyn o ddifrif ac ymateb ar frys

PAM MAE’N DDOETH CADW’R DYDD HWNNW YN FYW YN EIN MEDDYLIAU A’I GADW YN FATER O FRYS (11 mun.)

Mae geiriau 2 Pedr 3:10-13 [Gweler troednodyn adnod 10] o ddiddordeb arbennig [Darllenwch a thrafodwch] (*w10*-E 7/15 3-5 par. 1-11)

Bydd y system bresennol yn cael ei difa’n llwyr yn fyd-eang

Toddir yr elfennau pan fydd y nefoedd a’r ddaear symbolaidd presennol yn profi dinistr tanllyd

Ystyr “disgwyl am Ddydd Duw” yw bod yn llwyr ymwybodol o’r hyn y bydd dydd Jehofah yn ei olygu i ni yn bersonol ac i’r ddynoliaeth yn gyffredinol

Mae gan wir Gristnogion y gobaith o oroesi’r dydd hwnnw

Ond fe ddaw’r dydd hwnnw “fel lleidr” i’r rhai na fyddant yn effro i arwydd yr amserau

Yr anogaeth gawn ni gan Pedr yw ymddwyn yn “sanctaidd a duwiol” (*w10*-E 7/15 7-11)

Mae’r fath ymddygiad yn sanctaidd ac yn dduwiol am eu bod nhw’n rhan o ofynion Duw ar gyfer Cristnogion [Heb osod rheolau, rhowch enghreifftiau pendant o sut gallan ni fynd o gwmpas ein gwasanaeth cysegredig, trwy’n hymddygiad a’n gweithredoedd duwiol]

BYDD CADW DYDD JEHOFAH YN FYW YN EIN MEDDYLIAU YN DOD Â BENDITHION (4 mun.)

Dyma’r amser inni ddisgwyl yn awyddus am ddydd Jehofah a’n cael yn dderbyniol ganddo [Darllenwch 2 Pedr 3:14]

Ein gobaith yw cael ‘cuddfan yn nydd llid’ Jehofah, a chael ein hamddiffyn ganddo (Seff 2:2, 3)

A ninnau eisoes yn gwybod am ddydd Jehofah, fe ddylen ni deimlo’r angen i sicrhau perthynas ffafriol â Duw a bod yn ffyddlon a selog yn ei wasanaeth (2Pe 3:17, 18)

Wrth wneud ewyllys Duw nawr medrwn obeithio “aros am byth,” a goroesi dydd bythgofiadwy Jehofah (1In 2:17)

(Glynwch yn glòs wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gweler y llyfr *Ministry School,* t. 52-54, 166-169)

© 2012 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl